Pan orffennodd lefaru dywedodd wrth Simon, “Dos allan i’r dŵr dwfn, a gollyngwch eich rhwydau am ddalfa.”
(Luc 5:4)

Dyma un o wyrthiau Iesu ym myd natur, oedd yn arwydd - i’r pysgotwyr a ddeuai’n ddisgyblion, ac i ninnau - o brif waith yr Eglwys a sut i fynd at y gwaith hwnnw.

Cefndir

Mae Iesu yn ei fro ei hun o gwmpas môr Galilea y mae Luc yn ei alw’n Llyn Genesaret. Roedd y llyn yn ffynhonnell pysgod, gan roi bywoliaeth i nifer o ddynion a bwyd i bobl yr ardal hefyd. Roedd y pysgotwyr yn golchi ac o bosibl yn trwsio’u rhwydau ar ôl noson ofer o bysgota. Mae Iesu’n benthyg un o’r cychod i fod yn bulpud dros dro gan fod cymaint o dyrfa’n ei ganlyn. Felly, dyma ddysgu ar ei eistedd yn y cwch gyda’i gynulleidfa luosog ar y lan.

Herio Simon

Ar ôl gorffen annerch y bobl, mae Iesu’n dweud wrth Simon, oedd yn y cwch mae’n debyg, i fynd i’r dwfn a gollwng y rhwydau am helfa. Mae’n herio’i amynedd a’i ffydd.

Un peth sy’n rhaid ei gael i fod yn bysgotwr yw amynedd! Rwy’n siŵr fod Pedr yn fyr ei amynedd ar ôl noson gyfan o bysgota heb ddal dim. Roedd y rhain yn bysgotwyr proffesiynol, yn gyfarwydd â’r llyn, ac yn teimlo’n rhwystredig iawn am eu methiant. Pe bai rhywun arall wedi dweud hyn, byddai Pedr wedi dweud wrtho ble i fynd!

Yn anfoddog, braidd, mae’n mynd allan ac yn gollwng y rhwydau ond yn cael ei synnu o weld gorlenwi’r rhwydau â physgod, a hynny’n weddol gyflym, mae’n amlwg. Roedd cymaint o bysgod nes bod angen help y pysgotwyr eraill i gasglu’r ddalfa fawr.

Addoliad mewn cwch

Mewn ymateb i wyrth yr helfa bysgod mae Pedr yn plygu wrth liniau Iesu. Rhaid cofio fod y Gwaredwr yn eistedd yn y cwch ac mai dyna pam mae’r disgybl wrth ei liniau ac nid wrth ei draed. Mae’n gweld mawredd y person yma, mae’n gweld duwdod ynddo oherwydd ei ddylanwad ar y greadigaeth. Mae’n ei alw’n ‘Arglwydd’, sef y gair Groeg a ddefnyddir yn y Septuagint, cyfieithiad Groeg yr Hen Destament, ar gyfer Duw. Gerbron y person dwyfol

hwn, mae Pedr yn ymwybodol o'i annheilyngdod a'i bechod. Efallai ei fod yn ymwybodol o'i ddiffyg ffydd yn gynt, ond, mwy na thebyg, mae'n ymwybodol o'i feidroldeb a'i bechadurusrwydd cyffredinol.

Mae ei ymateb yn debyg i agwedd Abraham gerbron yr Arglwydd yn Genesis 18.27: **"Dyma fi wedi beiddio llefaru wrth yr Arglwydd, a minnau'n ddim ond llwch a lludw."** Mae'n ein hatgoffa hefyd o Ioan Fedyddiwr pan ddywedodd nad oedd yn deilwng i ddatod carrai sandalau'r Meseia.

Mae'r wyrth yma wedi cael argraff arbennig ar Simon, er nad hon oedd y gyntaf iddo weld. Efallai bod hon wedi ei ysgwyd gymaint am fod y rhyfeddod ym myd pysgota, maes bywoliaeth ac arbenigedd Pedr.

Dal dynion

Mae'n amlwg bod Iesu am i'r wyrth yma fod yn arwydd o waith ei deyrnas a'i ddarpar ddisgyblion. Wrth anfon Pedr i'r dwfn ym môr Galilea, roedd yn paratoi ei weision i fynd i ddyfnder tywyll y byd i ddal pechaduriaid i'r deyrnas.

Mae pob math o bysgod yn nyfnder y môr: rhai sydd yn bwyta'i gilydd; rhai sydd yn newid eu lliwiau er mwyn twyllo a dal eu hysglyfaeth; rhai sydd yn edrych yn brydferth nes eu cyffwrdd a phrofi eu gwenwyn. Mae hynny'n ddarlun o amrywiaeth y byd o'n cwmpas; dyma'r 'llyn' mae Iesu yn ein hanfon i bysgota ynddo.

Mae hyn yn rhoi darlun diddorol o Eglwys Iesu Grist yn y byd. Nid llong bleser mohoni i bobl fynd i ddianc oddi wrth y byd ar wyliau moethus a chysurus. Nid llong danfor mohoni chwaith, i fynd o'r golwg oddi wrth y byd. Nid llong rasio mo'r Eglwys yn ceisio ennill bri a llwyddiant bydol drwy gystadlu â chrefyddau eraill neu asiantaethau seciwlar eraill. Na, cwch pysgota yw'r Eglwys i fod.

Dilyn Crist

Neges arall, glir o'r hanesyn hwn yw mai dim ond trwy ddilyn cyfarwyddyd Crist y byddwn yn effeithiol. Rhaid i Eglwys Iesu wneud pethau yn ffordd Iesu. Roedd y pysgotwyr proffesiynol wedi ymlafnio trwy'r nos heb ddal dim. Ar air y Meistr daeth haig o bysgod i'r rhwydau. Mae dilyn ei gyfarwyddyd Ef - er iddo swnio'n rhyfedd ac yn groes i synnwyr cyffredin weithiau - yn siŵr o ddwyn ffrwyth. Mae'r hanes yma'n gorffen gyda'r pedwar pysgotwr yn gadael proffesiwn y rhwydau er mwyn dilyn y Pen Bysgotwr a dechrau bwrw prentisiaeth bysgota tra gwahanol.